

# Gwneud Y Gorau - Making The Most

For the last little while, we have been looking at a number of patterns and phrases. Let's put them to use. Here are some **llythyron** ("letters") written to you from other learners using these patterns. Read the letters and then answer some questions about them. **Byddwch yn ofalus** ("Be careful"). Some of the letters are written in the northern dialect while others are written in a southern dialect.

---

Annwyl Ffrind:

Sut dach chi? Sharon Dafies ydw i. Dw i'n byw yn Abergele ar gyrion y dre. Ysgrifenyddes ydw i, ac dw i'n gweithio mewn gwesty. Dw i'n licio dawnsio, cerdded, a loncian. Ar y teledu, dw i'n licio "Wheel Of Fortune" a "The Price Is Right." Dw i'n casáu pêl-droed a rygbi. Dw i'n dysgu Cymraeg o'r teledu.

Sharon Dafies



**Dw i'n licio pêl-droed!**

---

Annwyl Ffrind:

Shw mai? Keith Dunbury yw'r enw. Dw i'n byw yn Llantrisant gyda'r wraig Jean, y ferch Angela, a'r mab Kevin. Dw i'n gweithio i'r Awdurdod Iechyd ("Health Authority") mewn swyddfa. Clerc ydw i. Dw i'n lico edrych ar y teledu ond mae'r radio yn well! Dw i'n mwynhau gwrando ar fiwsig. Dw i'n dysgu Cymraeg gyda "Now You're Talking" ac dw i'n ymarfer yn y dafarn gyda ffrind. Dw i'n lico lager gyda lemonêd.

Keith Dunbury

---

Annwyl Ffrind:

Sut dach chi? Delma Hawkins ydw i. Dw i'n byw mewn tre o'r enw Llangefni yn Ynys Môn. Mae gen i ddau fab, Christopher a Nigel. Dw i'n byw efo'r plant a'r gŵr, Gareth. Dw i'n dod o Gorwen yn wreiddiol. Dw i ddim yn gweithio rŵan. Gwraig tŷ ydw i. Dw i'n licio ysgrifennu a darllen nofelau Jeffrey Archer.

Delma Hawkins.

---

---

Annwyl Ffrind:

Shwd dych chi? Mae'n oer, on'd yw hi? Dw i'n byw yn y wlad ger ("near") Caerfyrddin. Mae gŵr 'da fi. Mae mab a dwy ferch 'da fi ac mae cath Persia 'da fi o'r enw Fluffy. Dw i'n lico'r gŵr a'r plant, ond mae Fluffy'n well! Dw i ddim yn lico'r teledu fel arfer ("usually"/"as a rule"), ond dw i'n lico "Now You're Talking". Ar y radio, dw i'n lico miwsig glasurol ("classical music"). Dw i ddim yn gweithio nawr. Dw i wedi ymddeol. Rhaid i fi fynd nawr.

Sheila Rowles



---

---

**Dw i'n lico darllen!**

Annwyl Ffrind:

Mam ydw i. Dw i'n byw yn Aberdâr. Mae mab 'da fi o'r enw Huw a merch o'r enw Siân. Mae Huw yn dair ac mae Siân yn bedair a hanner. Yn y bore am ddeg o'r gloch, dw i'n mynd â Siân a Huw i'r ysgol feithrin. Wedyn, dw i'n mynd i'r gwaith. Dw i'n gweithio mewn ffatri. Dw i ddim yn briod nawr. Dw i'n hoffi gwrando ar "Catchphrase" ar y radio.

Eleanor James

---

---

Annwyl Ffrind:

Dafydd Jones ydy'r enw. Dw i'n byw yn y Trallwng ac yn gweithio yn Wrecsam. Rheolwr banc ydw i. Does gen i ddim gwraig a does gen i ddim plant chwaith. Does gen i ddim problem! Dw i'n licio mynd allan i'r dafarn ac dw i'n licio mynd i weld Wrecsam yn chwarae pêl-droed. Dw i ddim yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl eto, ond dw i'n dysgu. Dw i'n gallu deall tipyn bach ar y teledu rŵan.

Dafydd Jones

# Taflen Waith

In the above letters, many things were said about many subjects. Fill in the table below with the facts that you have discovered in the letters above.

	<b>Sharon Dafies</b>	<b>Keith Dunbury</b>	<b>Delma Hawkins</b>	<b>Sheila Rowles</b>	<b>Eleanor James</b>	<b>Dafydd Jones</b>
Byw?						
Gweithio?						
Hoffi?						
Ddim Yn Hoffi?						
Sefyllfa Deulol? <sup>1</sup>						
Rhyw Ffaith Arall? <sup>2</sup>						

---

<sup>1</sup> "Family Situation"

<sup>2</sup> "Any Other Fact"